# PWYLLGOR PENSIYNAU DYDD IAU, 15 MAWRTH 2018

**YN BRESENNOL:**

**Y Cynghorwyr:** John Brynmor Hughes, Stephen W. Churchman, John Pughe Roberts, Aled Wyn Jones, Peredur Jenkins, Councillor David Cowans a Cynghorydd John Griffith

**SWYDDOGION:** Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid), Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu) a Caroline Lesley Roberts (Rheolwr Buddsoddi)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Simon Glyn a Peter Read

## 1. YMDDIHEURIADAU

**Present**: Councillors: Stephen Churchman (Chair), David Cowans (Conwy Borough Council), John Griffith (Isle of Anglesey County Council), Peredur Jenkins, John Brynmor Hughes, Aled Wyn Jones, John Pughe Roberts and Hywel Eifion Jones (Pensions Board - Observing)

Officers: Dafydd Edwards (Head of Finance Department), Caroline Roberts (Investment Manager) and Lowri Haf Evans (Member Support Officer)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

None to note

## 3. MATERION BRYS

None to note

## 4. COFNODION

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Simon Glyn a Peter Read

## 5. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL AR GYFER 2018/19

Yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, mae’n ofynnol i’r Cyngor, fel rhan o’i swyddogaeth wrth reoli’r trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyriwyd y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd (y “Gronfa”) fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli’r Trysorlys (DSRhT) Cyngor Gwynedd am 2018/19, fel ei addaswyd i

bwrpas y Gronfa Bensiwn. Cafodd DSRhT Cyngor Gwynedd am 2018/19 ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 8 Mawrth 2018.

Yn ychwanegol, gofynnwyd i'r Pwyllgor Pensiynau wneud cais i'r Cyngor, i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif arian cyffredinol yr Awdurdod o'r 1af o Ebrill ymlaen. Eglurwyd bod cronni'r llif arian yn denu llog uwch ac yn isafu costau bancio.

Amlygwyd bod yr arian yma yn cael ei fuddsoddi gyda gwrthbartion yn unol â'r DSRhT er mwyn uchafu dychweliadau. Tynnwyd sylw at y prif amcanion gan amlygu bod Cod CIPFA a Chanllaw LIC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei gronfeydd yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd enillion uchaf, neu'r cynnyrch uchaf.

Nodwyd bod cyfraddau llog bellach yn isel iawn ac felly dulliau creadigol eraill o fuddsoddi yn cael eu hystyried. Cadarnhawyd hefyd mai cadw'r Gronfa yn saff a gwarchod yr arian yw'r flaenoriaeth ac nid cymryd risg.

Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr argymhellion.

Awgrymodd un aelod yr angen am ddatganiad gan y Swyddog Monitro ar ddechrau'r adroddiad yn mynegi bod y trefniant yn gyfreithiol gywir ac eglurhad ar sut mae'r broses yn cael ei rheoli.

**PENDERFYNWYD**

**Cymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2018/19, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn.**

- **Gofyn i'r Cyngor ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2018 ymlaen.**

## 6. BUDDSODDI A LLYWODRAETHU CYFRIFOL

***Yn dilyn sesiwn hyfforddiant a gynhaliwyd ar y cyd ag aelodau'r Bwrdd ar 18.1.2018, adroddwyd bod Paul Potter o Hymans wedi paratoi adroddiad oedd yn amlinellu egwyddorion buddsoddi cytunedig aelodau a swyddogion Gwynedd ar sail ymatebion i holiadur a gwblhawyd ar gyfer y sesiwn. Nodwyd fod yr adroddiad hwnnw, 'Cytuno Credau Buddsoddi Cyfrifol' wedi'i drafod yn y Panel Buddsoddi a gynhaliwyd ar yr 28ain o Chwefror, a chyflwynwyd prif ystyriaethau'r Panel i'r Pwyllgor er mwyn cymeradwyo'r egwyddorion.***

***Y cam nesaf fydd cyflwyno'r egwyddorion a restrwyd i'r Bwrdd Pensiwn (12.4.18) i'w graffu. Os bydd y Bwrdd yn gytûn bydd modd ymgorffori'r egwyddorion fel rhan swyddogol o Ddatganiad Strategaeth Buddsoddi'r Gronfa.***

***Mewn ymateb i'r adroddiad, amlygwyd bod derbyn yr egwyddorion yn amserol yng nghyd – destun Partneriaeth Pensiwn Cymru. Bydd gan Wynedd farn glir am eu hegwyddorion buddsoddi.***

***Croesawyd yr egwyddor o edrych i fuddsoddi mewn asedau cynaliadwy, gan gynnwys buddsoddi o fewn ardal Cymru pan fydd 'buddiannau***

***anariannol' yn deillio o hynny. Ategwyd bydd y Gronfa yn ystyried buddsoddi mewn asedau Cymru pan fydd y meini prawf yn caniatáu hynny. Sicrhau'r enillion gorau fydd prif flaenoriaeth y Gronfa.***

***Mewn ymateb i sylw ynglŷn â geiriad egwyddorion 2.1 a 2.2 a'r awgrym bod y datganiadau yn gwrth-ddweud ei gilydd, nodwyd yr angen i ystyried yr egwyddorion yn eu cyd-destun llawn, heb dorri'r brawddegau i fyny a chanolbwyntio ar eiriau unigol.***

***Eglurodd y Pennaeth Cyllid fod dehongliad cyfreithiol y "SAB" o'r "dyletswydd ymddiriedol" wedi'i gylchredeg i aelodau'r Pwyllgor cyn cyfarfod y Panel Buddsoddi.***

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 2.30 y.h.

**CADEIRYDD**